*Status: This is the original version (as it was originally made). This item of legislation is currently only available in its original format.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2022 1069 (Cy. 225)

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *19 Hydref 2022* |
| *Yn dod i rym - -* | *24 Hydref 2022* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 72(1)(c) a 78(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn(**2**).

Yn unol ag adran 72(3) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chymdeithasau sy'n cynrychioli cynghorau siroedd a bwrdeistrefi sirol yng Nghymru, a'r cyfryw bersonau eraill, sy'n briodol yn eu barn hwy, mewn perthynas â'r diwygiad a wneir gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hyn.

Yn unol ag adran 142(3)(b)(i) a (ii) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

### Enwi a dod i rym

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol a Bwriadoldeb) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 24 Hydref 2022.

### Ychwanegu disgrifiad pellach o berson ag angen blaenoriaethol am lety o dan Ran 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014

**2.** Yn adran 70(1) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, ar ôl paragraff (j) mewnosoder—

"(k) person—

(i) sy'n ddigartref ac ar y stryd (o fewn ystyr adran 71(2)), neu

(ii) y gellid disgwyl yn rhesymol i berson sy'n dod o fewn is-baragraff (i) breswylio gydag ef."

(**1**) 2014 dccc 7.

(**2**) Mae adran 72(1)(c) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 (dccc 7) yn bŵer i wneud gorchmynion ac mae adran 78(1) o'r Ddeddf honno yn bŵer i wneud rheoliadau. Gwneir yr offeryn statudol hwn ar ffurf rheoliadau fel y'i caniateir o dan adran 39(1) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4).

**Diwygio Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015**

**3.** Yn rheoliad 2 o Reoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015(**3**), ar ôl paragraff (j) mewnosoder—

"(k) person—

(i) sy'n ddigartref ac ar y stryd (o fewn ystyr adran 71(2)), neu

(ii) y gellid disgwyl yn rhesymol i berson sy'n dod o fewn is-baragraff (i) breswylio gydag ef."

*Julie James*
Y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru

19 Hydref 2022

(**3**) O.S. 2015/1265 (Cy. 85).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Tai (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") a Rheoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015").

Mae rheoliad 2 yn diwygio Deddf 2014 i bennu disgrifiad pellach o berson sydd ag angen blaenoriaethol am lety at ddibenion Pennod 2 o Ran 2 o'r Ddeddf honno. Mae'r Bennod honno yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau tai lleol i gynorthwyo pobl sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd.

Mae rheoliad 3 yn gwneud newid cyfatebol i Reoliadau Digartrefedd (Bwriadoldeb) (Categorïau Penodedig) (Cymru) 2015.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru.